# PAPURAU BUSNES

# 21 Mehefin 2000

# Rhan 1 - Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 14 Mehefin 2000

**Testun Dadl Fer**

**NDM337 Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Adeiladu Argaeau a Chymunedau Lleol

**NDM338 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad, ar ôl ystyried y gwaith a wnaed gan swyddogion ac a ddisgrifir yn y ddogfen ‘Gwybodaeth am Broject Adeilad Newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru’ a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin, yn penderfynu mynd am Ddewis E fel y’i disgrifir yn y ddogfen honno.

**NDM339 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.5 a 9.9, yn nodi adroddiad cynnydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2000.

**NDM340 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin.

(b) cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000 a’r Memorandwm Cywiriadau

a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin.

**NDM341 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin.

(b) cymeradwyo fod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 15 Mehefin 2000

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynigion:

## NDM338

**1. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileu popeth ar ôl "penderfynu" a rhoi yn ei le "mabwysiadu Dewis A fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno".

**2. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileu popeth ar ôl "penderfynu" a rhoi yn ei le "parhau i symud ymlaen â Dewis B fel y'i disgrifir yn y ddogfen honno".

**3. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Dileu popeth ar ôl y geiriau "Cynnig," a rhoi yn eu lle "nad yw'r Cynulliad, o ystyried materion yn ymwneud â gofynion caffael, diffyg manylion yngln â chostau, anawsterau ymarferol a rhwymedigaethau cytundebol mewn perthynas â safle 1E, yn rhoi unrhyw ystyriaeth i gynnig anghyfrifol a sinigaidd y Cabinet i adeiladu dros faes parcio'r cwrt."

**4. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Dileu popeth ar ôl y gair "penderfynu" a rhoi yn ei le "peidio â symud ymlaen ag unrhyw adeilad newydd".

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 16 Mehefin 2000**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM338**

**5. Owen John Thomas (Canol De Cymru);**

Mewnosod 'Cenedlaethol' ar ôl y geiriau 'y Cynulliad'. Dileu'r holl eiriau sy'n dilyn '… Ddewis E' a mewnosod 'er gwaetha'i ddiffygion amlwg'